



GWRYCHOEDD

Disgrifiad

Llinellau o lwyni prenaidd megis cyll, draenen wen a draenen ddu yw gwrychoedd ac yn aml fe'u ceir gyda banciau, ffosydd, ymylon ac / neu goed gwrychoedd. Codwyd y gwrychoedd i amgáu tir amaethyddol a marcio ffiniau. Mae'r gwrychoedd hynaf yn tueddu i gynnwys mwy o rywogaethau prenaidd. Mae'n bosib mai gweddillion coetiroedd yw rhai ohonynt ac maent yn cynnwys clychau'r gog a blodau'r gwynt.

Mae gwrychoedd yn cynnig noddfa, bwyd a lle i fyw i amrywiol greaduriaid a phlanhigion. Mae llawer o adar yn nythu ac yn bwyta mewn gwrychoedd gan gynnwys coch y berllan a melyn yr eithin. Mae tylluanod brech ac ystlumod yn clwydo mewn coed gwrychoedd. Mae gloynnod byw a gwyfynod a'u lindys yn bwyta planhigion y gwrychoedd ac maen nhw yn eu tro'n fwyd i'r adar. Mae madfallod yn byw yn y bylchau sydd rhwng y banciau a'r waliau o dan y gwrych. Mae mamaliaid turïol megis y llygoden goch yn defnyddio'r banciau a'r llystyfiant sydd wrth waelod y gwrych.

Gall y gwrychoedd fod yn 'Goridorau Bywyd Gwyllt' sy'n cysylltu cynefinoedd gwasgaredig megis coetiroedd gyda'i gilydd, gan gynnig diogelwch o ryw fath i'r anifeiliaid sy'n trafaelio rhwng gwahanol safleoedd a gwasgaru planhigion.

HABITAT ACTION PLAN

Description

Hedgerows are lines of woody shrubs such as hazel, hawthorn and blackthorn, often occurring with banks, ditches, verges and / or hedgerow trees. Hedges were established or used to enclose agricultural land and mark boundaries. Older hedges tend to contain more woody species and some may be remnants of woodland, supporting blue bell and wood anemone.

Hedgerows provide shelter, food and a living space for a wide variety of wildlife. Many birds, including bullfinch and yellowhammer nest and feed in hedges. Tawny owls and bats roost in hedgerow trees. Butterflies and moths and their caterpillars feed on hedgerow plants and provide food for birds. Common lizards may live in gaps in banks and walls below the hedge. Burrowing mammals such as bank voles will also make use of the banks and vegetation at the base of the hedge.

Hedgerows act as 'Wildlife Corridors' linking otherwise fragmented habitats such as woodland, providing relative safety for animals travelling between sites and allowing for the dispersal of plants.

Distribution in Ceredigion

The number and length of hedgerows in Ceredigion is





Dosbarthiad yng Ngheredigion

Ni wyddys beth yw niferoedd a hyd gwrychoedd Ceredigion ond mae rhagor ohonynt i'w cael ar dir isel yn ne'r sir, ar lain yr arfordir ac yn nyffyrnoedd yr afonydd lle mae'r tir yn fwy ffwrwthlon. Mae cyflwr gwrychoedd y sir yn amrywiol.

Wyddoch chi?

Er nad ydynt yn blanhigion brodorol mae Tresi Aur a Choed Ffawydd i'w cael yng ngwrychoedd Ceredigion.

Ffactorau sy'n effeithio ar gynefinoedd yng Ngheredigion

- Cânt eu diddymu at ddibenion amaethyddiaeth, datblygu neu wella ffyrdd ac mae hyn yn tanseilio eu gwerth fel coridorau ecolegol/bywyd gwylt.
- Dulliau Rheoli Anaddas e.e. ffustio pob gwrych ar fferm (gan gynnwys gwrychoedd sydd newydd eu gosod) bob blwyddyn neu'u tocio ar adegau amhriodol (er enghraifft, yn ystod tymor nythu adar neu pan fo aeron a chnau'n datblygu). Collwyd coed gwrychoedd trwy eu cwmpo neu'u difrodi oherwydd ffustio amhriodol.
- Esgeulustod o ran rheoli gwrychoedd, yn rhannol oherwydd dirywiad dulliau traddodiadol gosod gwrychoedd gan arwain at wrychoedd gwael, nad ydynt yn ddim mwy na llinellau o lwyni a choed y gall anifeiliaid fynd trwyddynt nad ydynt yn cynnwys cymaint o gyfleoedd i fywyd gwylt. Gall adeiledd y banciau ddirywio oni chânt eu cynnal a'u cadw, gan gynnwys banciau ar ymyl y ffordd, a gall hyn olygu colli'r gwrychoedd eu hunain. Os bydd da byw'n blaenbori ac yn sathru gwrychoedd sydd heb eu ffensio gall hyn ddifrodi'r llwyni, fflora'r llawr a'r banciau cynnal. Bydd niferoedd y coed aeddfed sydd yn y gwrychoedd yn dirywio, a byddant farw oherwydd afiechydon a henaint, oni chaiff coed eu plannu /eu diogelu yn eu lle.



unknown but there are higher densities on lower lying land in the south of the county, along the coastal belt and more fertile river valleys. The current condition of hedgerows in the county is variable.

Did you know?

Although not native to the area Laburnum and Beech are both locally frequent in Ceredigion hedgerows.

Factors affecting the habitat in Ceredigion

- Removal for agricultural purposes, development or road improvement schemes which has also undermined their value as ecological/wildlife corridors.
- Unsympathetic Management Practices e.g. flailing all hedges on a farm (including recently laid hedges) every year or cutting at inappropriate times (such as during the bird nesting season or when berries and nuts are developing). Hedgerow trees have been lost through felling and damage from inappropriate use of flails.
- Management neglect of hedgerows, in part through the decline in traditional hedge-laying practices results in poor hedgerows, little more than gappy lines of shrubs and trees that are not stock-proof and have fewer wildlife niches. Structural deterioration of unmaintained banks, including roadside banks, can lead to loss of hedgerows on top. Browsing and trampling of unfenced hedgerows by livestock damages the shrubs, ground flora and supporting banks. Numbers of mature hedgerow tree decline, through death due to disease and old age, if replacement trees are not planted / protected.
- Nutrient enrichment from fertiliser or slurry often leads to an increase in species such as nettle and creeping buttercup to the detriment of a more diverse flora. Pesticides and herbicides can adversely affect hedgerow flora and fauna.
- Invasion by Japanese knotweed is widespread in hedgerows. Herbicide treatment is expensive and is particularly difficult in hedgerows as non-target species are likely to be lost. Bracken may also be a problem, particularly where hedges are cut back severely preventing hedgerow shrubs from shading it out.

(Note: It is estimated that one quarter of the total length of Welsh hedgerows was lost between 1984 and 1990,



- Mae'r maeth sydd mewn gwrrtaith a slyri'n gallu arwain at gynyddu rhywogaethau megis danadl poethion a chrafanc brân ymlusgol gan gyfyngu ar amrywiaeth y fflora. Gall plaladdwyr a chwynladdwyr gael effaith andwyol ar fflora a ffawna'r gwrychoedd.
- Mae llysiâu'r dial yn rhemp mewn gwrychoedd. Mae eu trin gyda chwynladdwyr yn ddrud ac yn anodd iawn mewn gwrychoedd gan fod perygl lladd rhywogaethau eraill hefyd. Gall rhedyn fod yn broblem hefyd, yn enwedig os caiff gwrychoedd eu torri'n ôl yn helaeth gan rwystro llwyni'r gwrychoedd rhag eu llesteirio. • (D.S. Tybir y collwyd chwarter hyd gwrychoedd Cymru rhwng 1984 a 1990, a diffyg rheolaeth oedd yn gyfrifol am y colledion mwyaf yn hytrach na diddymu bwriadol)

Beth sy'n digwydd yn lleol?

Caiff rhai gwrychoedd eu diogelu a'u rheoli'n briodol gan berchnogion tir a rheolwyr ac mae rhai mesurau cyfreithiol.

- Mae dyletswydd ar Gyngor Sir Ceredigion a Llywodraeth Cynulliad Cymru i hybu cadw, gwella ac adfer cynefinoedd sy'n cael blaenoriaeth gan gynnwys gwrychoedd hynafol ac/neu rai sy'n doreithiog o rywogaethau. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi llunio Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Stad y Cefnffyrdd sy'n cyfarwyddo asiantiaid rheoli i reoli gwrychoedd y cefnffyrdd mewn modd cydnaws.
- Mae Rheoliadau'r Gwrychoedd 1997 yn darparu ar gyfer cadw rhywogaethau hynafol ac/neu rai sy'n doreithiog o rywogaethau ac maent yn ei gwneud yn ofynnol cynnal arolygon.
- Mae ffiniau wedi eu cynnwys yn safonau Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da o dan drawsgydymffurfio.
- Gellir defnyddio Gorchmynion Cadw Coed i ddiogelu rhai coed mewn gwrychoedd.
- Mae Tir Gofal yn annog ail-greu/adfer gwrychoedd ar dir ffermydd.
- Anogir defnyddio stoc blannu frodorol leol (gan gyrrff cadwraeth a swyddogion cadwraeth y cyngor sir) os bwriedir adfer gwrychoedd neu blannu gwrychoedd newydd.
- Mae cyngor ynglŷn â rheoli ar gael gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, RSPB, SET, Grŵp Cyngori ar Ffermio a Bywyd Gwylt, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt De a Gorllewin Cymru.



with lack of management accounting for greater losses than deliberate removal)

What is being done locally?

Some hedgerows are protected and managed sensitively by landowners and managers and there are some legal mechanisms.

- Ceredigion County Council and the Welsh Assembly Government (WAG) have a duty to promote the conservation, enhancement and restoration of priority habitats including ancient and/or species-rich hedgerows. WAG has produced a Trunk Road Estate BAP which directs managing agents to manage trunk roads hedgerows sympathetically.
- The Hedgerow Regulations 1997 provide for the retention of ancient and/or species rich hedgerows and requires surveys to be undertaken.
- Boundaries are included within the Good Agricultural & Environmental Condition standards under cross-compliance.
- Tree Preservation Orders may protect some hedgerow trees.
- Recreation/restoration of hedgerows on farmland is also encouraged in Tir Gofal.



Targedau

- Sicrhau na cholli'r gwrychoedd trwy esgeulustod a diddymu
- Gwella cyflwr gwrychoedd fel cynefinoedd
- Cynnal neu gynyddu nifer ac ansawdd coed gwrychoedd
- Dileu neu reoli llysiâu'r dial a phlanhigion estron ymwithol eraill

Beth allwch chi ei wneud i helpu

- Rheoli gwrychoedd ac annog eraill i reoli eu gwrychoedd mewn modd priodol.
- Plannu gwrychoedd newydd gan ddefnyddio llwyni brodorol lleol
- Dysgu ynglŷn â dulliau traddodiadol rheoli gwrychoedd a'u gweithredu .
- Cymryd rhan mewn arolygon gwrychoedd yn eich cymuned. Gallai hyn gynnwys mapio hanesyddol, mapio rhywogaethau a nodi ardaloedd a fyddai'n addas ar gyfer plannu gwrychoedd newydd a marcio coed ifanc i'w cadw i ffurfio coed gwrychoedd newydd.

Rhagor o wybodaeth

- Gweler tabl camau gweithredu (rhan 2 cynllun gweithredu'r Gwrychoedd) am fanylion y camau gweithredu lleol. Gofyn i'r Swyddog Bioamrywiaeth am fanylion.
- Cynllun Gweithredu Gwrychoedd y Deyrnas Gyfunol (ar gael ar www.ukbap.org.uk).
- Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Ceredigion (ar gael ar www.ceredigion.gov.uk)
- Swyddog Bioamrywiaeth, Adain yr Arfordir a Chefn Gwlad, Adran y Gwasanaethau Amgylcheddol a Thai, Cyngor Sir Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron SA46 0PA saraha@ceredigion.gov.uk 01545 570 881
- Llawlyfr Arolygu Gwrychoedd, dull safonol o gynnal arolygon lleol yn y Deyrnas Gyfunol a luniwyd ar ran grŵp llywio CGBLI y Deyrnas Gyfunol ar gyfer gwrychoedd hynafol ac/neu rai sy'n doreithiog o rywogaethau (2002)
- Taflen 'Gwrychoedd' (Cyhoeddiad Cyngor Cefn Gwlad Cymru)

Partner arweiniol: Cyngor Sir Ceredigion, Penmorfa, ABERAERON, SA46 0PA. Ffôn: 01545 570881.

Dyddiad y cynllun: L. Bird Cyngor Sir Ceredigion, 2006

Cysylltiadau â chynlluniau eraill: Mae'r modd y rheolir rhai o'r rhywogaethau a'r cynefinoedd eraill yn gydnaws a'r modd y rheolir gwrychoedd e.e. ymylon y ffyrdd, y pathew.



- The use of native, local provenance planting stock is encouraged (by conservation bodies and by the county council's Conservation officers) where hedgerows are restored or new hedgerows are planted.
- Management Advice is provided by for example CCW, RSPB, SET, Farming Wildlife Advisory Group (FWAG), Wildlife Trust of South & West Wales.

Targets

- Halt the net loss of hedgerows through neglect and removal
- Improve the condition of hedgerows as habitats
- Maintain or increase the number and quality of hedgerow trees
- Japanese knotweed and other invasive alien plants to be absent or controlled

What you can do to help

- Manage your own hedgerows and encourage others to manage their hedgerows sympathetically.
- Plant new hedges using native shrubs of local provenance
- Learn & put into practice traditional hedgerow management.
- Take part in hedgerow surveys in your community. This may include historical mapping, species mapping and identifying areas suitable for new hedges to be planted and marking saplings to be retained to form new hedgerow trees.

Further information

- Actions table (Hedgerows action plan part 2) for details of local action. Ask Biodiversity Officer for details.
- UK Hedgerows Action Plan (available on www.ukbap.org.uk)
- Ceredigion Local Biodiversity Action Plan (available on www.ceredigion.gov.uk)
- Biodiversity Officer, Coast & Countryside Section, Department of Environmental Services and Housing, Ceredigion County Council, Penmorfa, Aberaeron SA46 0PA biodiversity@ceredigion.gov.uk 01545 570881
- The Hedgerow Survey Handbook, a standard procedure for local surveys in the UK, has been prepared on behalf of the UKBAP steering group for ancient and/or species-rich hedgerows (2002).
- 'Hedgerows' leaflet (CCW publication)

Lead Partner Ceredigion County Council, Penmorfa, ABERAERON, SA46 0PA. Tel 01545 570881

Date of plan: L Bird, Ceredigion County Council, 2006

Links to other plans: Management for some other species and habitats is compatible with that for hedgerows eg Roadside verges, dormouse